# Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu
## Rhan Amser (oriau i'w drafod)

## Swyddfa Llinos Medi AS – Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Ystod Cyflog: | £23,810 - £37,846 pro rata |
| Lleoliad: | Swyddfa'r Etholaeth yng Nghaergybi, Ynys Môn (gyda theithio achlysurol i San Steffan yn ôl yr angen) |
| Cytundeb: | Parhaol |
| Oriau Gwaith: | Rhan Amser (oriau a diwrnodau gwaith i'w drafod) |

**Pe byddai'r Aelod Seneddol yn ymddiswyddo, neu'n colli ei sedd mewn etholiad, bydd y swydd hon yn dod i ben.**

Mae Llinos Medi, Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Ynys Môn yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a threfnus i ymuno â'i swyddfa yn yr etholaeth ac i gefnogi tîm prysur gyda amrywiaeth o dasgau gweinyddol

### Mae'r cyfirifoldebau penodol yn cynnwys:

- Gweithio fel aelod o dîm prysur o fewn swyddfa'r etholaeth;
- Rheoli a datblygu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol yr AS
- Creu cynnwys digidol deniadol gan gynnwys postiadau, graffeg, fideos byr, cylchlythyrau a diweddariadau gwefan er mwyn hyrwyddo gwaith yr AS
- Helpu i ymchwilio, llunio, a rhannu datganiadau i'r wasg
- Trefnu a pharatoi cyfweliadau a chyfleoedd i dynnu lluniau
- Creu asedau digidol megis fideos ac inffograffeg
- Monitro perfformiad, nodi llwyddiannau ac arymell ffyrdd a cyfleon newydd i wella
- Monitro sylw yn y cyfryngau ac ymgysylltiad ar-lein
- Ymateb yn broffesiynol i ymholiadau a sylwadau ar-lein ar ran yr Aelod
- Mynychu ymweliadau o fewn yr etholaeth gyda'r Aelod Seneddol ac o bryd i'w gilydd, San Steffan
- Cydweithio gyda staff grŵp Plaid Cymru yn San Steffan ac eraill i ymateb i faterion llosg y dydd, gan fwydo mewn i bolisïau Plaid Cymru
- Unrhyw waith arall rhesymol yn ôl y gofyn.

### Sgiliau sydd eu hangen:

#### Gwybodaeth a Phrofiad Hanfodol:

- Sgiliau ysgrifennu cryf dwyieithog gyda sylw i fanylder
- Profiad o reoli llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn broffesiynol ac o dan bwysau
- Y gallu i gyfathrebu'n glir ar faterion cymhleth
- Sensitifrwydd wrth drin gwybodaeth gyfrinachol

## Gwybodaeth a Phrofiad Dymunol:

- Gwybodaeth am faterion lleol sy'n berthnasol i'r etholaeth, a dealltwriaeth ohonynt
- Profiad o weithio mewn amgylchedd gwleidyddol, sector cyhoeddus neu'r cyfryngau

## Sgiliau ac ymddygiadau Hanfodol:

- Sgiliau trefnu a chynllunio effeithiol;
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar o'r radd flaenaf yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Sgiliau rhyngbersonol effeithiol a'r gallu i ymwneud ag amrywiaeth o bobl mewn sefyllfaoedd sy'n gallu bod yn heriol;
- Ymagwedd angerddol dros gyfiawnder a thegwch ar gyfer pobl a chymunedau difreintiedig;
- Diddordeb mewn materion gwleidyddol cyfoes yng Nghymru a thu hwnt;
- Y gallu i weithio ar liwt eich hun, ac yn aelod o dîm ac yn rhagweithiol;
- Y galli i weithio o fewn terfynau amser tyn, o dan bwysau, gyda'r gallu i weithio'n hyblyg ac i ymdopi ag amrywiaeth o dasgau ar yr un pryd;
- Sgiliau rhyngbersonol effeithiol a'r gallu i ymwneud ag amrywiaeth o bobl mewn sefyllfaoedd sy'n gallu bod yn heriol;
- Sgiliau TG effeithiol, yn enwedig wrth ddefnyddio pecynnau Microsoft fel Word, Outlook ac Excel, a pharodrwydd i ddysgu sgiliau newydd;
- Y gallu i ddangos sensitifrwydd a sicrhau bod y safonau uchaf o gyfrinachedd yn cael eu cynnal;
- Y gallu i drafod, eirioli a dehongli sefyllfaoedd amrywiol ar ran etholwyr;
- Dealltwriaeth o'r gofynion i ymdrin â gwybodaeth yn gyfrinachol yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data;
- Cydymdeimlad i nodau a chredoau Plaid Cymru; Yn arddel nodau a gwerthoedd Plaid Cymru;
- Trwydded yrru a defnydd o gerbyd.

## Cymwysterau, Gwybodaeth a Phrofiad Manteisiol:

- Gymhwyster NVQ lefel 3 neu 4 neu gymhwyster cyfatebol
- Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru, mewn materion gwleidyddol ar lefel Cymru, Prydain a thu hwnt.

## Y Broses Ymgeisio:

Dylid anfon CV a llythyr cais erbyn 6ed o Ebrill 2026 at y Rheolwr Swyddfa, niab.price@parliament.uk

Os am fwy o fanylion, neu am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â'r Rheolwr Swyddfa, Nia Price ar 01248 572737

Dyddiad cyfweliad: **I'w gadarnhau**

Dyddiad cychwyn: cyn gynted a phosib (union ddyddiad i'w gytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus)

**Bydd y penodiad yn amodol ar eirda a bydd gofyn i chi gydymffurfio â Gwaelodlin y Safon Diogelwch Personél, a gynhelir gan Swyddfa Ddilysu Staff yr Aelodau (MSVO). Gweler tudalen Swyddfa Ddilysu Staff yr Aelodau (MSVO) am fwy o wybodaeth. Mae ASau fel rheol yn talu staff yn unol â chanllawiau IPSA.**